Clirio Strydoedd

Defnyddio Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i reoli trwy Orchymyn yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus

Cynnwys:

Pennod 1	Datganiad o Bwrpas – nodau ac amcanion y Fenter
Pennod 2	Ystyriaethau cychwynnol cyn rhedeg y Fenter
Pennod 3	Rhedeg Menter Clirio Strydoedd
Atodiad 1	Llythyr Ymgynghori
Atodiad 2	Gwybodaeth am Ymgynghori
Atodiad 3	Rhestr o'r Sawl yr Ymgynghorwyd â Hwy
Atodiad 4	Cyflwyniad PowerPoint i ategu'r fenter
Atodiad 5	Hysbysiad yn y Wasg o Fwriad i Ddynodi Ardaloedd trwy Orchymyn

Pennod 1

Clirio Strydoedd – defnyddio Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i reoli yfed mewn mannau cyhoeddus

Cyflwyniad – nodau ac amcanion y Fenter

Her Iechyd Cymru

1. Dewiswyd themâu allweddol Her Iechyd Cymru am yr ystyrir mai rhain yw'r problemau sydd yn llunio cyfran helaeth o'r afiechyd y mae modd ei osgoi. Y mae lleihau damweiniau ac anafiadau ac atal niwed sy'n deillio o gamddefnyddio alcohol a sylweddau eraill yn ddau o themâu allweddol Her Iechyd Cymru. Y mae Iechyd a Lles Meddyliol yn thema allweddol arall. Y mae'r fenter hon yn mynd i'r afael â'r tair thema allweddol a nodwyd, trwy geisio symud y sawl sy'n yfed alcohol o fannau cyhoeddus lle'r ystyrir eu bod naill ai yn achosi niwsans neu yn berygl iddynt hwy eu hunain neu eraill.

2. Mewn rhai mannau, y mae yfed alcohol yn yr awyr agored yn ddymunol a deniadol, ac yn gallu ychwanegu at fwynderau ardal, megis y tu allan i fwytai neu mewn ardaloedd twristaidd. Y mae'r fenter hon, fodd bynnag, yn mynd i'r afael ag unigolion a grwpiau a all fod yn yfed mewn mannau cyhoeddus lle nad oes darpariaeth ar gyfer yfed, a lle gellir gweld eu presenoldeb fel bygythiad i ddiogelwch y sawl sy'n byw yno neu'n pasio heibio, neu i'r yfwyr eu hunain.

3. Y mae pobl yn synied am yfwyr ar y stryd fel pobl ymosodol a threisgar ac fel bygythiad i gymdeithas, hyd yn oed pan nad yw hyn yn wir yn aml. Dangosodd astudiaeth yn Rotherham fod pobl yn gwarafun ac yn ofni presenoldeb yfwyr ar y stryd er nad oes tystiolaeth i gadarnhau fod unrhyw wir fygythiad i ddiogelwch y cyhoedd. Y mae disgwyl i'r heddlu a gwasanaethau eraill gymryd camau.

Pa Mor Ddiogel ydych Chi'n Teimlo?

% Nifer Ymateb		
Diogel	50	51
Gweddol Anniogel	19	19
Anniogel	8	8
Gweddol Ddiogel	4	4
Dim Ateb	2	2
Cyfanswm Ymatebion	98	100%

Gwahoddwyd y sawl a gymerodd ran yn yr arolwg i awgrymu sut y gellid trin rhai o'r pynciau hyn; cafwyd tri chategori o awgrym:

Gorfodi – Mwy o blismona, gwell amser ymateb gan yr heddlu, mwy/gwell TCC, mwy o SCCH, gwahardd yfed ar y stryd/gwaharddiadau mewn parciau gyda phlant, gwell diogelwch, GYGG/gorchmynion gwasgaru.

Lles – Gwell gwasanaethau i ddefnyddwyr sylweddau, Canolfannau Ieuenctid, gweithgareddau, addysg, gwybodaeth a gwaith.

Amgylcheddol – Gwell cyfleusterau chwarae mewn parciau, cynllunio a dylunio'r ardal, wardeiniaid parciau, cyfleusterau toiled.

4. Awgryma adroddiadau, lle bo grwpiau mawr o bobl yn yfed ar y stryd, fod gwir bryder o du'r sawl sydd yn byw gerllaw. Mae pobl hŷn ofn gadael eu tai neu fynd i'r ardd am eu bod yn ofni cael eu difenwi neu i rywun ddwyn oddi wrthynt, ac y mae pobl ifanc yn ofni i rywun ymosod arnynt a'u curo. Y mae tystiolaeth hefyd, lle'r arferir defnyddio man cyhoeddus neu ardal agored ar gyfer yfed alcohol, y bydd yn denu mwy o yfwyr ac yn ymsefydlu'r fuan fel man lle mae yfed alcohol yn gyhoeddus yn 'dderbyniol'. Y mae ardaloedd o'r fath felly yn dioddef o'r holl broblemau sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol yn gyhoeddus, megis gwneud dŵr a chwydu yn gyhoeddus, sbwriel, sŵn, ymosodiadau, trosedd ac ofn trosedd, fel y'i trafodwyd.

5. Y mae cost ymdrin â digwyddiadau sy'n deillio o alcohol, i'r heddlu a'r GIG, yn sylweddol. Mae amcangyfrifon yr heddlu am ymdrin â throseddau treisiol yn amrywio o £1,440 am ymosodiad cyffredin i £21,442 am niweidio difrifol. Y mae un heddlu wedi amcangyfrif mai £150,000 yw cost delio â digwyddiad o 'wydro[1].'

Dengys y tabl isod y gost i'r heddlu o ymdrin â digwyddiadau unigol, sydd fel arfer yn codi pan fo naill ai'r cyflawnwr neu'r dioddefwr neu'r ddau dan ddylanwad alcohol. (ffigyrau 2003-4)

Trosedd	Cost
Trais yn erbyn yr unigolyn (ar gyfartaledd)	£10,100
Anafu Difrifol	£21,442
Anafu	£ 8,852
Arall	£ 8,056
Ymosod Cyffredin	£ 1,440
Dwyn (oddi ar rywun)	£ 634
Difrod Troseddol	£ 866

4. Amcangyfrifi ei fod yn costio £1.7 biliwn y flwyddyn i'r GIG drin digwyddiadau ac anafiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol[2]. Yng Nghymru, y mae'r amcangyfrif hwn yn £750 miliwn y flwyddyn[3]. 1.2 Caiff 1.2 miliwn digwyddiad yn ymwneud ag alcohol eu trin yn adrannau Brys ysbytai yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn, ac y mae alcohol yn ffactor mewn 40% o'r derbyniadau i adrannau brys, gan godi i 70% rhwng hanner nos a 5 a.m. Amcangyfrifir mai £7.3 biliwn oedd y gost i'r gwasanaethau brys a'r GIG o ymdrin â throsedd ac anhrefn yn codi o ymddygiad yn ymwneud ag alcohol yn 2003[4].

5. Y mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddynodi mannau cyhoeddus lle bydd yn drosedd yfed alcohol wedi i Heddwas ofyn i rywun beidio â gwneud hynny. Cyn dynodi ardaloedd o'r fath, rhaid i'r awdurdod lleol allu dangos y bu niwsans, poeni neu anhrefn yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn y mannau hynny. Y mae'r fenter hon yn

[1] Amcangyfrif Heddu Dyfed Powys 2006
[2] Uned Strategaeth y Prif Weinidog, ' Alcohol Misuse – how much does it cost? Llundain: Gwasg ei Mawrhydi 2003
[3] Ibid
[4] DR R Hussey, Awdurdod Iechyd Strategol Swydd Gaer a Glannau Mersi- papur i Gynhadledd IPSM 20 Ion 2004.

defnyddio'r pwerau hynny i fynd i'r afael â mater yfed ar y stryd, a thrwy hynny mae'n ymdrin ag atal damweiniau ac anafiadau, boed y rheiny'n ddamweiniau a achosir trwy fod yn feddw neu trwy ymosod, naill ai gan neu ar yfwyr, a hefyd â phwnc iechyd meddwl a lles y sawl sydd yn gweld yfwyr yn fygythiad. Y mae hefyd yn mynd i'r afael â phwnc cam-drin alcohol a phwnc cysylltiedig cam-drin sylweddau lle mae hyn yn gysylltiedig ag yfed. Yn ychwanegol at ymdrin â themâu Her Iechyd Cymru, sef lleihau damweiniau ac anafiadau, a cham-drin alcohol a sylweddau, y mae'r ymyriad hwn hefyd yn mynd i'r afael â rhai o'r pynciau sy'n codi dan y Strategaethau Cymdogaethau Glân a Throsedd ac Anhrefn lle bydd awdurdodau lleol yn bartneriaid. Er nad oes a wnelont yn uniongyrchol â Her Iechyd Cymru, y mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu i agenda ehangach Diogelwch Cymunedol, Trosedd ac Anhrefn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan ehangu gwerth yr ymyriad i'r partneriaid sy'n ei gyflwyno.

5

5

Pennod 2

Clirio Strydoedd – defnyddio Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i reoli yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus trwy ddefnyddio parthau rheoli alcohol.

Rhedeg menter

1. Ystyriaethau cychwynnol

Rhaid ymdrin ag ystyriaethau cychwynnol am y prosiect hwn, gan gynnwys:

- Beth yw'r grŵp targed?
- Sut mae modd cyrraedd y grŵp targed?
- Beth yw'r deilliant dymunol ac a oes digon o ewyllys da i'r prosiect o du rhanddeiliaid pwysig eraill, e.e., yr Heddlu, i gael y deilliant dymunol?
- Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?
- Sut caiff y fenter ei gwerthuso?
- A gyllidir y fenter ac a fydd yn rhoi gwerth am arian?

2. Grŵp Targed

Nid grŵp sefydlog yw'r grŵp targed ar gyfer yr ymyriad hwn. Y mae'r ymyriad yn targedu unigolion sydd yn cyfarfod ac yn yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus. Nid yr un grŵp fydd yr unigolion o raid bob tro; yn hytrach, cânt eu diffinio trwy eu presenoldeb mewn man arbennig. Mewn rhai achosion, gall y grŵp targed fod yn un unigolyn.

3. Cyrraedd y Grŵp Targed

Y grŵp targed yw'r sawl sydd yn yfed yn y parthau rheoli alcohol. Cânt eu hadnabod trwy eu presenoldeb a'r ffaith eu bod yn yfed alcohol yno.

Yr heddlu yn hytrach na'r awdurdod lleol neu ei swyddogion fydd yn cyrraedd y grŵp targed. Bydd yr heddlu naill ai yn dod o hyd i'r grŵp targed wrth batrolio'r ardal fel arfer neu pan gânt wybodaeth gan y cyhoedd neu'r ystafell reoli TCC.

4. Cyrraedd y deilliant dymunol

Diben y fenter yw gostwng nifer yr unigolion sydd yn yfed gormod o alcohol, lleihau nifer y digwyddiadau a'r anafiadau sy'n deillio o yfed alcohol, lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n codi o yfed mewn mannau cyhoeddus, a lleihau ofn trosedd yn y gymuned.

Y mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddynodi mannau cyhoeddus lle bydd yn drosedd yfed alcohol, neu'r hyn sydd

yn ymddangos fel alcohol, wedi i heddwas ofyn i rywun beidio â gwneud hynny. Bydd yn drosedd hefyd peidio ag ildio alcohol, neu'r hyn sydd yn ymddangos fel alcohol, i Heddweision. Dynodir yr ardaloedd wedi casglu tystiolaeth (ym Mro Morgannwg, yr oedd hyn yn ymarferiad ymgynghori ar raddfa eang) i nodi'r ardaloedd lle mae yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus yn gysylltiedig â niwsans, aflonyddu neu anhrefn. Defnyddiwyd ystadegau digwyddiadau'r heddlu, cronfa ddata gwynion Iechyd Amgylchedd yr awdurdod lleol yn ogystal â gwybodaeth gan drigolion a Chynghorau Cymuned wrth gasglu tystiolaeth. Trwy ddynodi'r mannau penodol fel parthau rheoli alcohol a thrwy hynny roi'r pŵer i'r heddlu fynnu bod y sawl a welwyd yn yfed alcohol yno yn peidio â gwneud hynny, mae modd atal y problemau sy'n gysylltiedig ag yfed o'r fath, gan gynnwys ymddygiad gwrth-gymdeithasol, perygl damweiniau ac anafiadau, damweiniol a bwriadol, a'r peryglon sy'n gysylltiedig â cham-drin alcohol a sylweddau eraill.

5. Pwy yw'r partneriaid allweddol yn y fenter?

Yn y prosiect peilot, y partneriaid oedd yr awdurdod lleol, yr Heddlu, Partneriaeth y Fro Ddiogelach, Cynghorau Tref a Chymuned, a Thrwyddedeion.

6. Sut caiff y fenter ei gwerthuso?

Caiff y fenter hon ei gwerthuso trwy gymharu adroddiadau am ddigwyddiadau ac arestiadau am feddwi, ymddygiad troseddol/gwrth-gymdeithasol a damweiniau sy'n digwydd yn y parthau rheoli alcohol cyn eu dynodi fel parthau rheoli alcohol ac wedyn. Bydd yr heddlu'r cadw'r ffigyrau hyn a bydd modd gwneud cymariaethau uniongyrchol. Lle cafwyd menter debyg ym Mwrdeistref Camberwell yn Llundain yn 2006 , gwelwyd 9 o ddigwyddiadau yn ymwneud ag yfed ar y stryd yn yr ardal ym mis Ionawr 2006 o'u cymharu â 45 am yr un mis yn 2005, a symudwyd 26 o yfwyr ar y stryd ymlaen gan yr heddlu yn ystod y mis hwnnw, o'u cymharu â 140 ym mis Ionawr 2005. Mae'r ffigyrau hyn yn dyst i lwyddiant y fenter.

Y mae'n anos gwerthuso llwyddiant y fenter hon o ran canfyddiad y sawl y mae yfed ar y stryd yn effeithio arnynt oherwydd, fel y crybwyllwyd ym Mhennod 1, mae canfyddiad perygl trosedd ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn aml yn afrealistig. Efallai, serch hynny, fod modd cynnal astudiaethau goddrychol cyn ac ar ôl yr ymyriad er mwyn gweld a yw'r sawl y mae'r fenter yn digwydd yn eu hardaloedd yn teimlo fod amodau wedi gwella ac y cafwyd newid yn y ffordd y maent yn ymddwyn, e.e., eu bod yn teimlo ei bod yn ddiogel mynd allan gyda'r nos, neu nad ydynt yn ofni difrod i'w heiddo, etc. Rhaid bod yn ofalus gyda gwaith o'r fath rhag chwyddo ofn trosedd yn annaturiol, neu gadw ofn trosedd ar lefelau afrealistig a'i wneud yn amlycach trwy ofyn cwestiynau amdano. Rhaid bod yn ofalus hefyd wrth edrych ar unrhyw ganlyniadau, o gadw mewn cof nad yw ofn trosedd, etc. o raid yn uniongyrchol gysylltiedig â'r risg gwirioneddol.

Nod arall y fenter hon yw mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Y mae rhai sy'n yfed ar y stryd hefyd yn byw ar y stryd am nad oes ganddynt gartref na gwaith. Mae trin yfwyr o'r fath yn fater cymhleth dros ben sydd yn gofyn am ymrwymiad tymor-hir gan nifer o bartneriaid, a'r awdurdod lleol yn eu mysg. Pobl ifainc yw yfwyr stryd eraill, sydd yn hel ar gornel strydoedd ac mewn mannau cyhoeddus megis parciau i yfed, gan nad oes ganddynt lefydd eraill i ymgasglu, neu am eu bod yn dewis peidio

â mynd i gyfleusterau megis clybiau ieuenctid lle mae yfed wedi ei wahardd. Gall eu hymwneud amhriodol ag alcohol sefydlu patrwm o or-yfed a chamddefnyddio alcohol a all arwain at broblemau iechyd sy'n effeithio ar eu bywydau yn ystod eu hoes. Ni fydd modd bod yn hollol hyderus wrth werthuso effaith y fenter hon o ran lleihau risg fel hyn, yn enwedig os mai effaith datgan parthau rheoli alcohol fydd symud yfwyr i fannau eraill, llai amlwg. Ar y gorau, gellir rhagdybio y bydd ymwneud a chysylltu ag yfwyr ar y stryd yn peri iddynt newid eu hymddygiad a thrin alcohol mewn dull mwy cyfrifol.

7. A fydd y fenter yn rhoi gwerth am arian?

Amcangyfrifwyd mai cost y prosiect peilot oedd £10,000. Y mae hyn yn cynnwys cost yr ymarferiad ymgynghori, drafftio a gwneud y gorchmynion cyfreithiol perthnasol a'u hysbysebu yn ôl gofynion y ddeddfwriaeth, cost arwyddion a'r amser a dreuliodd y swyddogion yn gwneud yr holl waith paratoi. Gan yr atgynhyrchir llawer o'r drafftio cyfreithiol yn y pecyn cymorth hwn, bydd y gost i'r sawl sy'n rhedeg y fenter dipyn yn llai na chost y prosiect peilot. Cyllidwyd y prosiect yn rhannol gan grant o Bartneriaeth y Fro Ddiogelach.

O gofio'r costau ddaw i ran yr heddlu wrth ymdrin â throseddau a all ddeillio o yfed ar y strydoedd, y gost i'r GIG o drin anafiadau damweiniol a niwed bwriadol, yn ogystal â chost trin cyflyrau a achoswyd gan alcohol sy'n byrhau einioes, a'r gost i'r awdurdod lleol o drin effeithiau yfed megis sbwriel, niwsans sŵn a cheisio atal ymddygiad gwrth-gymdeithasol, a'r ffaith y gall y fenter hon leihau neu wella hyn oll, heb sôn am y manteision anodd eu mesur o ran gwell ansawdd bywyd i drigolion yr effeithir arnynt, awgrymwn fod y fenter hon yn rhoi gwerth am arian.

Pennod 3

Rhedeg y Fenter Clirio Strydoedd

Yr ymgyrch

Defnyddio Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i greu 'Parthau Rheoli Alcohol' mewn mannau cyhoeddus, a thrwy hynny leihau trosedd ac ofn trosedd a gwella iechyd meddwl a lles ac ansawdd bywyd i drigolion.

Camau Rhagarweiniol

Y mae'r fenter hon yn dilyn camau a nodwyd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig) 2001. Cynghorir y sawl sydd yn rhedeg y fenter yn gryf i ymgynghori â'r ddeddfwriaeth a'r wefan ategol www.crimereduction.gov.uk

Y mae cryn dipyn o waith rhagarweiniol ynghlwm â'r fenter hon, sydd yn galw am nifer o gamau a nodwyd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig) 2001 i'w sefydlu. Unwaith i'r parthau rheoli alcohol gael eu dynodi, fodd bynnag, mater i'r heddlu yw gorfodi'r drefn. Y mae'n hanfodol felly cael cefnogaeth yr heddlu i'r fenter cyn cychwyn ar unrhyw waith, gan y bydd y fenter yn methu oni fydd yr heddlu mewn sefyllfa i'w chefnogi trwy orfodi'r gwaharddiad yn y mannau dynodedig.

Wedi cael cefnogaeth yr heddlu i'r fenter, y cam nesaf yw nodi'r mannau hynny y dylid eu dynodi fel parthau rheoli alcohol. Gall yr heddlu roi gwybodaeth am yr ardaloedd hynny lle maent yn dod wyneb yn wyneb ag yfwyr ar y stryd neu mewn mannau cyhoeddus, ac yn yr un modd, dylai'r awdurdod lleol fod â gwybodaeth ar ffurf cwynion gan drigolion ynghylch niwsans o yfed ar y strydoedd. Yr ardaloedd fydd yn manteisio fwyaf o'r fenter hon fydd y mannau hynny fu'n destun cwynion ynghylch yfwyr neu lle mae'r heddlu yn dod i gysylltiad cyson ag yfwyr.

Wedi nodi'r ardaloedd i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, bydd angen ymgynghori gyda'r sawl y bydd dynodi'r ardal fel parth rheoli alcohol yn effeithio arnynt. Dylid diffinio'r ardal yn ofalus, ac ni ddylai fod yn fwy nac sydd ei angen er mwyn cyrraedd nod y fenter, gan y byddai gwneud hynny yn cyfyngu'n ormodol ac yn dwyn anfri ar y fenter. Mae'r ddeddfwriaeth yn dweud ar ba ffurf y dylai'r ymgynghori fod, a bydd angen ymgynghori gyda'r Heddlu, Cynghorau Tref/Cymuned a Thrwyddedeion. Yn y prosiect peilot, ymgynghorodd Cyngor Bro Morgannwg ar raddfa ehangach o lawer na'r hyn a fynnwyd dan y ddeddfwriaeth. Yr oedd hyn yn benodol ar gais yr aelodau etholedig. Ceir rhestr o'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad 3.

Atodiad 3 yw'r llythyr ymgynghori a anfonwyd yn y prosiect peilot; Atodiad 2 yw'r wybodaeth a aeth gyda'r llythyr. Yn y prosiect peilot, gwnaed nifer o gyflwyniadau hefyd i Gynghorau Tref a Chymuned i esbonio diben y fenter iddynt, ac i amlinellu'r manteision fyddai'n deillio o'i chyflwyno'n llwyddiannus. Mae'r cyflwyniad PowerPoint a ddefnyddiwyd yn Atodiad 4.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, dylid ystyried yr ymatebion. Lle bo cefnogaeth glir i reoli yfed mewn stryd benodol neu le cyhoeddus, dylid gwneud y lle hwnnw yn destun Gorchymyn dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.

Y mae Adran 13 y Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau lleol ddynodi mannau cyhoeddus. Wedi'r broses o gasglu tystiolaeth, ymgynghori a rhoi cyhoeddusrwydd i'r bwriad i wneud Gorchymyn, gwnaeth yr Awdurdod Lleol Orchymyn dan Adran 13(2) y Ddeddf. Mae'r broses y mae'n rhaid ei dilyn parthed gwneud Gorchymyn yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig) 2001. Ni ddylid gwneud unrhyw Orchymyn tan o leiaf 28 diwrnod wedi cyhoeddi'r bwriad i'w wneud. Dylai'r Gorchymyn gynnwys yr holl ardaloedd hynny a ddaw dan ei effaith a'r dyddiad y daw i rym. Dangosir copi o'r Gorchymyn drafft yn Atodiad 4. Rhaid i Awdurdodau Lleol gyhoeddi mewn papur neu bapurau newydd sydd yn cylchredeg yn eu hardal ar ddau achlysur: yn gyntaf yn y cyfnod cyhoeddusrwydd, yn datgan eu bwriad i wneud y gorchymyn a'r mannau arfaethedig, yr effaith gaiff y gorchymyn, a gwahoddiad i wneud sylwadau. Unwaith i 28 diwrnod o leiaf fynd heibio ers cyhoeddi'r rhybudd cyntaf, dylid cyhoeddi ail rybudd eto mewn papur neu bapurau newydd sydd yn cylchredeg yn eu hardal. Bwriad yr ail rybudd yw nodi'r lle neu'r llefydd a nodir yn y gorchymyn, yn dweud eto pa effaith a gaiff ac o ba ddyddiad y daw i rym. Cyn y daw'r gorchymyn i rym, rhaid i'r Awdurdod Lleol godi hynny o arwyddion sydd yn eu barn hwy yn ddigonol i dynnu sylw aelodau'r cyhoedd. Unwaith i'r Gorchymyn gael ei wneud, dylid anfon copïau ohono at yr Ysgrifennydd Gwladol: mae'r manylion ar www.crimereduction.gov.uk <http://www.crimereduction.gov.uk> Y mae copi o'r hysbyseb a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot i hysbysebu bwriad y Cyngor i ddynodi ardaloedd trwy Orchymyn yn Atodiad 5.

Gall y sawl sy'n rhedeg y fenter hefyd fod eisiau gosod hysbysebion a dogfennau ategol megis mapiau wedi eu hamlygu mewn llyfrgelloedd, swyddfeydd y Cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd, yn ogystal ag ar wefan yr Awdurdod Lleol. Gallant hefyd fod eisiau ystyried cyhoeddi datganiad i'r wasg yn rhoi manylion yr hyn a gynigir er mwyn codi proffil y fenter, er y dylid nodi nad yw gweithgaredd o'r fath yn gwneud i ffwrdd â'r angen am hysbyseb yn ôl gofynion y ddeddfwriaeth.

Ar derfyn y cyfnod ymgynghori, dylai'r sawl sy'n rhedeg y fenter ystyried yr ymateb i'r ymgynghori. Yn amodol ar yr ystyriaeth honno, gall y Gorchmynion gael eu cadarnhau a deuant i rym ar ddyddiad a bennir gan yr awdurdod lleol trwy gytundeb gyda'r Heddlu. Cyn i'r Gorchymyn ddod i rym, rhaid codi arwyddion yn ardaloedd y parth rheoli alcohol yn hysbysebu'r gwaharddiad ar yfed lle bo heddwas yn gofyn iddynt atal. Mae modd gweld yr arwyddion a ddefnyddiwyd yn y prosiect peilot ar dudalennau gwe Iechyd Amgylchedd y Cyngor ar www.valeofglamorgan.gov.uk <http://www.valeofglamorgan.gov.uk>

Rhedeg y Fenter

Fel y nodwyd, unwaith i'r fenter hon gael ei sefydlu, fe'i gorfodir gan yr heddlu. Bydd heddweision yn adnabod unigolion neu grwpiau sydd yn yfed mewn mannau cyhoeddus a ddynodwyd fel parthau rheoli alcohol o ganlyniad i gwynion a dderbyniwyd gan aelodau'r cyhoedd, naill ai yn uniongyrchol i'r heddlu neu o ystafell reoli 24 awr TCC yr awdurdod lleol. Er mwyn monitro effeithiolrwydd y fenter, mae modd gofyn i'r heddlu gadw cofnod o nifer o weithiau y gofynnant i unigolion neu grwpiau i beidio yfed yn yr ardaloedd dynodedig, faint o alcohol a gymerant oddi arnynt neu nifer y rhybuddion cosb benodol a roddwyd. Bydd y ffigyrau yn rhoi syniad o'r ardaloedd hynny lle mae'r problemau

gwaethaf. Bydd gostyngiad yn y ffigyrau dros amser hefyd yn arwydd fod yfwyr yn dod yn ymwybodol o'r cyfyngiad ac yn cadw ato.

Dilyniant y Fenter

Nid oes terfyn amser ar y fenter hon a bydd yn parhau i redeg unwaith y sefydlwyd y parthau rheoli alcohol. Y bwriad yw casglu tystiolaeth ac ymgynghori bob blwyddyn er mwyn gweld a symudodd yr yfed o'r ardaloedd dynodedig i ardaloedd eraill. Rhagwelir y bydd rhaglen dreigl, gyda mwy o safleoedd yn cael eu cynnwys fel y cyfyd yr angen. Os nodir safleoedd newydd oherwydd symud neu am resymau eraill, rhaid dilyn y broses dair cam - tystiolaeth, ymgynghori a chyhoeddusrwydd fel o'r blaen. Yr awgrym yw y dylid cynnal adolygiad ar amser penodol wedi i'r fenter gychwyn, gan gymharu ffigyrau cwynion a digwyddiadau o'r cyfnod cyn cychwyn y fenter a'r un ffigyrau ar derfyn y cyfnod y cytunwyd arno. Gallai'r ffigyrau i'w cymharu fod am arestiadau a digwyddiadau y rhoddwyd adroddiad amdanynt i'r heddlu yn codi o'r parthau rheoli alcohol, cwynion am niwsans sŵn a wnaed i'r awdurdod lleol a chwynion cyffredinol am sbwriel yn yr ardaloedd, yn deillio o yfed alcohol. Fel yr awgrymir uchod, byddai gostyngiad yn y ffigyrau yn arwydd fod y cyfyngiadau yn llwyddiannus a bod ansawdd bywyd yn gwella i drigolion yr ardaloedd o gwmpas y mannau dynodedig. Gallant hefyd fod yn arwyddion fod iechyd meddwl a lles yn gwella, gyda llai o unigrwydd cymdeithasol ac ofn trosedd yn cael effaith lesol ar iechyd meddwl.

Mae modd gwerthuso yn oddrychol trwy gyfweld trigolion i glywed ganddynt a ydynt yn tybio fod amodau byw yn well, yn waeth neu heb newid ers i'r fenter gychwyn. Rhaid bod yn ofalus gyda mesurau gwerthuso o'r fath, gan eu bod yn dibynnu ar ganfyddiadau a chred; serch hynny, fel mesur ansoddol o lwyddiant, bydd iddo beth gwerth. Dylid datblygu'r fethodoleg werthuso ar gyfer y fenter hon mewn partneriaeth gyda'r Heddlu sydd yn gorfodi'r Gorchmynion. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Ni fydd modd mesur effaith y fenter, llesol neu fel arall, ar iechyd yr yfwyr y gofynnir iddynt beidio ag yfed, neu symud ymlaen, gan mai rhan fechan yn unig fydd y fenter o'r ffactorau hynny sydd yn dylanwadu ar unrhyw benderfyniad i leihau neu i atal yfed, ond dylid ei groesawu fel ffactor sydd yn cyfrannu.

Atodiad 1

"Dyddiad"
"Enw'r swyddog"
01446
01446

"Manylion y sawl yr ymgynghorir â hwy"

Annwyl Syr/Fadam

Ymgynghori – Rheoli Yfed ar y Stryd

Y mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn rhoi'r pŵer i Gyngor Bro Morgannwg ddynodi mannau cyhoeddus fel ardaloedd "dim yfed". Dan y Ddeddf, byddai unrhyw un fyddai'n yfed mewn lle dynodedig yn cyflawni trosedd petaent yn parhau i yfed alcohol pan fydd heddwas yn gofyn iddynt beidio, neu yn gwrthod ildio unrhyw gynhwysydd alcohol.

Er mwyn dynodi'r cyfryw ardaloedd, bydd ar y Cyngor angen tystiolaeth fod yfed ar y stryd yn achosi *niwsans cyhoeddus, aflonyddwch* neu *anhrefn.* Mae angen gwybodaeth am bob un o'r pynciau hyn, gan eu bod wedi eu gwahanu dan y Ddeddf. Buaswn yn ddiolchgar pe gallech helpu trwy lenwi'r holiadur amgaeedig. Bydd hyn yn helpu i ni adnabod yr ardaloedd sy'n achosi mwyaf o bryder. Yna, bydd yn bosibl ystyried yr ardaloedd hyn i'w cynnwys yn y Gorchymyn Yfed ar y Stryd arfaethedig.

Wrth lenwi'r holiadur, byddai o gymorth petaech yn cadw'r diffiniadau a ganlyn mewn cof. Daw llawer pwnc dan *niwsans cyhoeddus* ac *aflonyddwch*; gan gynnwys sbwriel wedi ei adael yn y strydoedd, pobl yn gwneud sŵn ac unigolion yn codi ofn ar bobl eraill. Gall *anhrefn* fod yn droseddol ac y mae'n cynnwys gwneud dŵr yn y stryd, ymddygiad sarhaus a grwpiau neu unigolion yn ymladd.

Buaswn yn ddiolchgar pe gallech ddychwelyd yr holiadur wedi ei lenwi erbyn **dydd Gwener 22 Gorffennaf 2005** yn yr amlen barod a atodir. Cewch wybod canlyniad yr ymgynghori hwn a chael cyfle i wneud sylwadau am yr ardaloedd hynny y bwriada'r Cyngor eu dynodi fel ardaloedd "dim yfed" os rhowch eich manylion cyswllt ar yr holiadur. Cyhoeddir canlyniad yr Ymgynghori hefyd ar wefan y Cyngor.

Mae mwy o wybodaeth am y Gorchymyn Yfed ar y Stryd Arfaethedig a'r broses y mae'r Cyngor yn ei ddilyn yn y llyfryn gwybodaeth amgaeedig.

Yr eiddoch yn gywir

Y Cynghorydd Hunter Jarvie

Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio

Atodiad 2

Gorchymyn Arfaethedig Yfed ar y Stryd

Deall y Broblem, y Pŵer a'r Broses

(Dyluniad i'w gwblhau gan Gyfathrebu Corfforaethol)

Rhagair

Gan y Cynghorydd Hunter Jarvie
Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio

(Llun o'r Aelod Cabinet)

Y mae yfed ar y stryd yn dod yn broblem mewn rhai ardaloedd ym Mro Morgannwg. Gall arwain at darfu ar drigolion ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fel pob Cyngor, y mae gan Fro Morgannwg bwerau i ddynodi mannau cyhoeddus fel ardaloedd "dim yfed". Mae'n flaenoriaeth gan y Cyngor i amddiffyn trigolion y mae yfed ar y stryd yn effeithio arnynt trwy fabwysiadu'r pwerau hyn mewn ffordd synhwyrol a rhesymol.

Y mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn datgan y problemau a all godi gydag yfed ar y stryd, y pwerau sydd gan y Cyngor i fynd i'r afael â hyn, a sut y bwriada weithredu'r pwerau hynny.

Y cam cyntaf yw gweld beth yw maint y broblem, a byddwn i'n annog unrhyw un sydd yn pryderu am yfed ar y strydoedd i ymateb i'r ymgynghori hwn trwy lenwi'r holiadur amgaeedig.

Y Cynghorydd Hunter Jarvie

Rheoli Yfed ar y Stryd – Y Broblem

Ein gweledigaeth ar gyfer y Fro yw cael lle sydd yn ddiogel, yn lân a deniadol, lle caiff unigolion a chymunedau gyfleoedd i wella eu hiechyd, eu ffyniant a'u lles.

Niwsans Cyhoeddus ac Aflonyddu

Gall yfed ar y stryd arwain at ymddygiad gwrth-gymdeithasol a all effeithio ar ansawdd bywyd neu fwynhad pobl sydd yn byw mewn ardal arbennig neu'n ei defnyddio. Gall esiamplau o niwsans a achosir gan yfed ar y stryd amrywio o ollwng sbwriel i weiddi a rhegi; o graffiti i fandaliaeth. Gall un neu ddau unigolyn neu grŵp mawr yn yfed alcohol ar y strydoedd achosi'r problemau hyn.

Mae'r math hwn o weithgaredd yn peri loes i eraill a gall eu hatal rhag defnyddio mannau cyhoeddus.

Anhrefn

Gall yfed ar y stryd hefyd achosi anhrefn a throsedd. Y mae anhrefn yn cynnwys ymddygiad troseddol; gall olygu ymosod, ymladd ac aflonyddu. Gall pobl wneud dŵr yn gyhoeddus a bygwth hefyd o ganlyniad i yfed ar y stryd. Dyma'r math o beth all olygu fod aelodau diniwed o'r cyhoedd yn dioddef o ganlyniad i droseddau. Gydag yfed ar y stryd, gall difrifoldeb y drosedd a'i ganlyniadau waethygu.

Hyd yn oed lle nad yw anhrefn yn deillio'n uniongyrchol o yfed ar y stryd, gall pobl sydd yn yfed alcohol ar y stryd godi ofn anhrefn, gyda hyn yn ei dro yn golygu bod llawer o bobl yn cadw draw o rai ardaloedd.

Rheoli Yfed ar y Stryd - Y Pŵer

Y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau na ddylai trigolion a'r sawl sy'n gweithio yn y Fro neu yn ymweld orfod dioddef problemau sy'n gysylltiedig ag yfed ar y stryd. Bydd y Cyngor yn defnyddio ei bwerau yn gyfrifol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Y mae gan yr Heddlu eisoes bwerau i gymryd alcohol oddi ar bobl ifanc dan Ddeddf Alcohol a Phobl Ifanc. Y mae hyn yn wir hefyd lle credant fod rhywun dros 18 oed yn bwriadu rhoi alcohol i rywun sydd dan oed. Felly ni fydd angen y pwerau newydd mewn mannau lle mae yfed yn broblem yn bennaf ymysg pobl ifanc.

Fodd bynnag, y mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol ddynodi mannau cyhoeddus lle bydd yn drosedd yfed alcohol wedi i heddwas ofyn i rywun beidio â gwneud hynny. Dan y Ddeddf, y mae gan yr heddlu hefyd bŵer i gymryd a gwaredu alcohol os ydynt yn credu bod rhywun yn ei yfed mewn man dynodedig, wedi gwneud neu ar fin gwneud hynny. Y mae methu â chydymffurfio â'r naill gais neu'r llall yn drosedd y gellir eich arestio amdani, a chael dirwy.

Rhaid i'r Cyngor ddynodi'r ardaloedd lle bydd y pŵer yn gymwys. Rhaid i'r ardaloedd hyn fod yn fannau cyhoeddus, a rhaid i'r Cyngor allu dangos y bu niwsans, neu aflonyddwch i aelodau'r cyhoedd, neu anhrefn, yn gysylltiedig ag yfed alcohol yn y fan honno. Rhaid datgan ffiniau'r ardal yn glir trwy eu henwi neu eu disgrifio.

Man cyhoeddus yw unrhyw fan lle mae gan y cyhoedd hawl mynd iddo naill ai yn rhydd neu trwy dalu. Nid yw'n cynnwys eiddo trwyddedig, gan gynnwys mannau y tu allan i eiddo trwyddedig lle rhoddwyd caniatâd dan Ddeddf Priffyrdd i yfed alcohol.

Gall y mathau o ardaloedd i'w dynodi gynnwys canol trefi lle byddai'r Gorchymyn yn ymdrin â phob stryd a man cyhoeddus o fewn ffin benodedig (ni fyddai'n cynnwys eiddo preifat y tu mewn i'r ffin), parciau penodol, mannau agored neu fannau chwarae lle mae pryderon ynghylch oedolion yn yfed alcohol. Nid yw wedi ei fwriadu ar gyfer digwyddiadau awyr agored lle caniatawyd Trwydded Digwyddiadau Dros Dro.

Y mae llawer awdurdod eisoes yn defnyddio'r pwerau newydd. Yng Ngogledd Gwlad yr Haf dynododd y Cyngor ardal gyfan canol Weston Super Mare gan ymestyn i'r ardal breswyl gyfagos er mwyn cynnwys ardaloedd lle mae problemau. Y mae'r Heddlu wedi

defnyddio’r pwerau newydd. Mewn cyfnod o bythefnos ym mis Gorffennaf, llwyddasant i gymryd neu waredu 28 litr o alcohol, ac arestio chwech o bobl a wrthododd ildio eu halcohol.

Rheoli Yfed ar y Stryd – Y Broses

Er mwyn dynodi ardal, bydd ar y Cyngor angen tystiolaeth fod yfed ar y stryd yn achosi niwsans cyhoeddus, aflonyddwch neu anhrefn. Y mae'r Cyngor yn casglu'r dystiolaeth hon o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys yr Heddlu. Y dull pwysicaf o gasglu tystiolaeth yw'r holiadur sydd gyda'r ddogfen hon. Y mae hwn yn rhoi i chi, y sawl sydd yn byw neu'n gweithio ym Mro Morgannwg neu yn ymweld â'r ardal, gyfle i ddweud wrth y Cyngor pa fath o broblem y mae yfed ar y stryd yn beri i chi, a lle mae'r problemau hyn yn digwydd.

Unwaith i'r dystiolaeth gael ei gasglu, caiff gorchymyn ei ddrafftio yn dynodi'r mannau hynny lle bo digon o dystiolaeth fod problem yn bodoli. Yna bydd proses ymgynghori bellach.

Y mae'r ddeddfwriaeth yn nodi trefn y broses ymgynghori. Cyn pasio'r Gorchymyn bydd y Cyngor yn ymgynghori â Phrif Uwch Arolygydd yr Heddlu a chadeirydd unrhyw gyngor plwyf neu dref lle mae'r ardal arfaethedig. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori â thrwyddedeion sydd yn berchen eiddo a allai ddod dan effaith y gorchymyn ac yn cymryd camau rhesymol i ymgynghori â pherchenogion unrhyw dir a ddynodir.

Cyhoeddir rhybudd yn y wasg leol yn rhoi manylion y bwriad i ddynodi ardaloedd dan y ddeddfwriaeth. Rhoddir cyfnod o 28 diwrnod o leiaf ar gyfer derbyn sylwadau. Yn ychwanegol at yr Ymgynghori statudol, bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori â'r ymatebwyr hynny a roes eu manylion cyswllt ar yr holiadur, gan roi cyfle iddynt wneud sylwadau am yr ardaloedd a nodwyd.

Unwaith i'r gorchymyn gael ei basio, ni ddaw i rym yn syth. Rhoddir hysbyseb yn y wasg leol, yn esbonio ar ba ddyddiad y daw'r gorchymyn i rym, a chodir arwyddion yn y mannau dynodedig i roi gwybod i bobl am yr effaith a gaiff y gorchymyn.

Unwaith i'r gorchymyn ddod i rym ac y bydd yn weithredol, bydd gan yr heddlu y grym i arestio pobl sy'n parhau i yfed ar y stryd, neu yn gwrthod ildio alcohol pan fydd heddwas yn gofyn iddynt wneud.

Atodiad 3

Controlling drinking on the Street

List of Consultees

Police

Community Safety Partnership

Vale of Glamorgan Council Members

Vale of Glamorgan Council Officers

Residents Associations

Licensees

Citizens Panel

Town, Parish and Community Councils

Local Health Board

Youth Forum

Local NHS Hospitals

Rail Track

British Transport Police

Taxi Consultative Panel

Neighbourhood Watch

Local Press

Atodiad 4

PowerPoint presentation Copy of 09b Appendix 4- PowerPoint Presentation.ppt

Atodiad 5

Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001

Yfed Alcohol mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig

Rhoddir RHYBUDD trwy hyn y bwriada Cyngor Bro Morgannwg yn unol â'i bwerau dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 ('y Ddeddf') Adran 13 wneud Gorchymyn yn dynodi'r ardaloedd a nodir yn yr Atodlen fel mannau cyhoeddus dynodedig at ddibenion y Ddeddf.

Effaith y Gorchymyn fydd galluogi cwnstabl i ofyn i rywun sydd yn ei gred resymol ef yn neu wedi bod yn yfed alcohol neu sy'n bwriadu yfed alcohol mewn man cyhoeddus dynodedig:

(i) i beidio ag yfed unrhyw beth sydd neu y cred y cwnstabl yn rhesymol sydd yn alcohol;

(i) i ildio unrhyw beth yn ei feddiant sydd neu y cred y cwnstabl yn rhesymol sydd yn alcohol neu yn gynhwysydd alcohol.

Y mae unrhyw un sydd yn methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â chais o'r fath yn cyflawni trosedd ac os caiff ei ddyfarnu'n euog gall gael ei ddirwyo.

Nodir y mannau arfaethedig a'u disgrifio yn yr Atodlen isod.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb i wneud sylwadau am y Rhybudd hwn erbyn 13 Hydref 2006. Cyfeiriad y Cyngor ar gyfer sylwadau yw'r Rheolwr Gweithrediadau, Gwasanaethau Rheoleiddio, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU.

Dyddiedig: 14 Medi 2006

ATODLEN

PENARTH

Parc Alexandra gan gynnwys y Cyrtiau Tennis a'r Lawnt Fowlio, y Kymin gan gynnwys yr holl diroedd a'r Pafiliwn, Maes Hamdden Cogan gan gynnwys yr holl fannau a meysydd chwarae a'r maes parcio, Dingle Heol Windsor a adwaenir hefyd fel y Dingle.

LLANILLTUD FAWR

Y Sgwâr gan gynnwys y mannau o flaen Neuadd y Dref, yr Old Swan a'r White Hart a'r ardal o gwmpas y New Globe a adwaenir hefyd fel y Tudor Tavern, hefyd lle mae Stryd Colhough , Stryd yr Eglwys a Burial Lane yn cyfarfod. Parc Lorna Hughes gan gynnwys y llwybr troed a'r ardal gyfagos, Ardal Siopa Poundfield gan gynnwys y meysydd parcio a'r Precinct a'r palmant rhwng ardal y Precinct a'r toiledau cyhoeddus, Caeau Chwarae'r Windmill gan gynnwys y maes parcio a'r man chwarae.

Y BARRI

Broad Street gan gynnwys yr ardal o flaen Clwb y Savoy hyd at ben pellaf Gwesty'r Barri gan gynnwys y palmentydd o boptu'r ffordd, Parc Chickenwood oddi ar Heol Porthceri ac yng nghefn Ysgol Fabanod a Meithrin Romilly, Parc Pencoedtre y tu mewn i ffiniau Ffordd Sain Brid, Heol Pencoedtre, Clos Raldan a gerddi'r rhandiroedd, Parc Romilly gan gynnwys pob ardal y tu mewn i ffens y ffin gan gynnwys y cwrt tennis, y lawnt fowlio, a'r holl gysgodfannau. Parc Victoria gan gynnwys safle'r band, y maes chwarae, cyrtiau tennis a'r maes chwarae.

Y BONT-FAEN

Parc Twt a adwaenir hefyd fel Parc Chwarae'r Bont-faen, o'r fynedfa oddi ar Heol Town Mill at y bont droed dros yr Afon Ddawan ac at y pwynt mynediad oddi ar y llwybr cyhoeddus o'r Stryd Fawr.